## Canlyniad eich prawf gwaed cyn geni: rydych chi'n gludydd clefyd y crymangelloedd

Mae'r wybodaeth hon ar eich cyfer chi os ydych chi'n feichiog ac wedi cael prawf gwaed sy'n dangos eich bod chi'n gludydd clefyd y crymangelloedd (a gyfeirir ato’n aml fel 'meddu ar nodwedd' neu ‘*having a trait*’). Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am fod yn gludydd, a’r hyn y mae’n ei olygu i chi a'ch teulu.

**Sut mae canlyniad eich prawf wedi'i ysgrifennu?**
Mae eich canlyniad wedi'i ysgrifennu fel 'canlyniadau sy'n gyson â bod yn gludydd clefyd y crymangelloedd (Hb AS)'. Mae'r llythyren A yn cynrychioli eich genyn haemoglobin A arferol. Mae'r llythyren S yn cynrychioli eich genyn haemoglobin clefyd y crymangelloedd.

**Beth mae canlyniad eich prawf gwaed yn ei olygu?**
Haemoglobin yw'r sylwedd mewn celloedd gwaed coch sy'n cludo ocsigen o amgylch eich corff. Mae bod yn gludydd clefyd y crymangelloedd yn golygu eich bod wedi etifeddu un genyn haemoglobin arferol o'r enw haemoglobin A gan un rhiant biolegol ac un genyn clefyd y crymangelloedd gan eich rhiant biolegol arall. Rydych chi’n iach gan eich bod wedi etifeddu'r genyn haemoglobin A arferol gan un rhiant. Nid yw bod yn gludydd yn eich gwneud chi'n sâl.

Mae bod yn gludydd clefyd y crymangelloedd yn golygu y gallech drosglwyddo'r genyn clefyd y crymangelloedd i'ch baban. Os yw tad biolegol eich baban hefyd yn gludydd, mae hynny’n golygu y gallech chi gyda'ch gilydd gael baban â chyflwr haemoglobin etifeddol. Os yw un rhiant biolegol yn gludydd clefyd y crymangelloedd a bod gan y rhiant biolegol arall enyn haemoglobin anarferol, fel haemoglobin S (clefyd y crymangelloedd), gallai hynny achosi anhwylder y crymangelloedd.

Rhowch wybod i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os ydych chi:

- wedi beichiogi yn dilyn triniaeth ffrwythlondeb gan ddefnyddio sberm rhoddwr neu wy rhoddwr;
- wedi cael trawsblaniad mêr esgyrn neu bôn-gelloedd; neu
- os ydych yn feichiog fel mam fenthyg.

**Cyflyrau haemoglobin etifeddol**
Anhwylderau gwaed yw cyflyrau haemoglobin sy’n cael eu hetifeddu gan y ddau riant biolegol. Mae lawer o wahanol gyflyrau haemoglobin. Bydd y math o gyflwr y gallai eich baban ei etifeddu yn dibynnu ar ba fath o enynnau haemoglobin sydd gan y ddau riant biolegol. Mae rhai cyflyrau'n fwy difrifol nag eraill. Y cyflyrau mwyaf difrifol yw clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia sy'n ddibynnol ar drallwysiadau (thalasaemia difrifol). Mae gwahanol fathau o anhwylderau'r crymangelloedd, ond y math mwyaf difrifol yw anaemia’r crymangelloedd (Hb SS), sy'n digwydd pan fydd y ddau riant biolegol yn gludyddion clefyd y crymangelloedd.


Gall eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol drafod hyn gyda chi, fel eich bod chi'n deall pa gyflwr y gallai eich baban ei etifeddu a sut y gallai hynny effeithio ar iechyd eich baban.

**Sut fyddai fy maban yn etifeddu anhwylder y crymangelloedd?**

**Mae un rhiant biolegol yn gludydd ac nid yw'r rhiant biolegol arall**

Os oes gan dad biolegol eich baban ddau enyn haemoglobin arferol (AA), mae siawns o 2 mewn 4 (50%) y bydd eich baban yn gludydd clefyd y crymangelloedd (fel chi) a siawns o 2 mewn 4 (50%) y bydd ganddo ddau enyn haemoglobin arferol (AA). Gweler y diagram isod.


Mae'r siawns hon yr un fath ym mhob beichiogrwydd i'r cwpl hwn.




**Beth os yw'r ddau riant biolegol yn gludyddion?**
Os yw tad biolegol eich baban yn gludydd, mae siawns o 1 mewn 4 (25%) y bydd eich baban yn etifeddu cyflwr haemoglobin. Bydd difrifoldeb y cyflwr yn dibynnu ar ba enynnau haemoglobin sy'n cael eu hetifeddu.

Mae hefyd siawns o 2 mewn 4 (50%) y bydd eich baban yn gludydd (fel chi), a siawns o 1 mewn 4 (25%) y bydd gan eich baban enynnau haemoglobin arferol (AA). Gweler y diagram isod.

Mae'r siawns hon yr un fath ym mhob beichiogrwydd i'r cwpl hwn.




**Beth arall sy'n bwysig ei wybod os ydych yn gludydd clefyd y crymangelloedd?**
Mae achlysuron prin iawn pan ddylech chi gymryd gofal ychwanegol oherwydd eich statws cludydd. Os bydd angen i chi gael anesthetig cyffredinol ar gyfer llawdriniaeth neu driniaeth ddeintyddol, gwnewch yn siŵr bod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwybod eich bod yn gludydd clefyd y crymangelloedd.

Os ydych chi'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol egnïol, dylech chi:
- wneud yn siŵr eich bod chi'n yfed digon o hylifau;
- osgoi blinder eithafol; a
- gwneud yn siŵr nad ydych chi byth yn brin o ocsigen.

**A ddylid cynnig profion i dad biolegol fy maban?**
Os oes gan dad biolegol eich baban enyn haemoglobin anarferol, mae'n bwysig nodi'r math o enyn a'r siawns y bydd eich baban yn etifeddu cyflwr haemoglobin. Am y rheswm hwn, byddwn hefyd yn gwahodd tad biolegol y baban i gael ei sgrinio. Dim ond os bydd yn cael prawf gwaed i gadarnhau'r math o haemoglobin sydd ganddo y bydd y tad yn gwybod a yw'n cario genyn ar gyfer haemoglobin anarferol.
https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-cyn-geni-cymru/adnoddau-gwybodaeth/taflenni/dogfennau-clefyd-y-crymangelloedd-a-thalasaemia/dogfennau-clefyd-y-crymangelloedd-a-thalasaemia-html/gwybodaeth-i-dadau-syn-cael-eu-gwahodd-i-gael-prawf-sgrinio-ar-g/

Os yw'r prawf yn dangos bod tad biolegol eich baban yn gludydd genyn haemoglobin anarferol, byddwch yn cael cynnig cwnsela arbenigol a diagnosis cyn geni.

**Beth fydd yn digwydd pan fydd fy maban yn cael ei eni?**
Cynigir prawf sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig i bob baban tua phedwar diwrnod ar ôl yr enedigaeth. Bydd y prawf hwn yn sgrinio am anhwylder y crymangelloedd.

**A ddylwn i ddweud wrth fy nheulu am y canlyniad?**
Efallai y bydd aelodau eraill o'r teulu, fel brodyr a chwiorydd, modrybedd, ewythrod, cefndryd a chyfnitherod eisiau ystyried cael eu profi gan y gallent hefyd fod yn gludyddion. Gallai rhannu'r wybodaeth hon gyda nhw fod o gymorth.

**Y camau nesaf a dewisiadau**
Gallwch chi hefyd wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i'ch meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol eich bod yn gludydd clefyd y crymangelloedd; a
- chysylltu â Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS) i gael gwybodaeth a chyngor am ddim i'ch helpu i ddeall goblygiadau bod yn gludydd clefyd y crymangelloedd.

**Rhagor o wybodaeth**
Gallwch gael rhagor o wybodaeth o'r canlynol.

111.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/s/article/sicklecelldisorder (Saesneg yn unig)

Fersiwn 3
Ebrill 2025